OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 764 (Cy.73)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2006

Wedi'u gwneud - -	*14 Mawrth 2006*
Yn dod i rym - -	*20 Mawrth 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 76(4) a 140(4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ac wedi iddo ymgynghori â'r cynrychiolwyr llywodraeth leol hynny sydd yn ei farn ef yn briodol, yn unol ag adran 76(5) o'r Ddeddf uchod, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2006 a deuant i rym ar 20 Mawrth 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau

2. Mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2006 neu ar ôl hynny, mae rheoliad 3 o Reoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000(**3**), wedi'i ddiwygio —

(a) drwy hepgor paragraffau (e) ac (f); a

(b) drwy ychwanegu, ar y diwedd,—

"(k) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru."

(**1**) 1988 p.41.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2000/718 (Cy.25) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/706 (Cy.85).